

## Dyddiadur

### Dydd Llun

8:00yb: Gweddi am 8

### Dydd Mawrth

8:00yb: Gweddi am 8

9:15yb: Boreol Weddi ar  
Facebook Live.

### Dydd Mercher

8:00yb: Gweddi am 8

7:00yh: Cwrdd Gweddi dydd  
Mercher.

### Dydd Iau

8:00yb: Gweddi am 8

### Dydd Gwener

8:00yb: Gweddi am 8

6:00yh: Cwrdd Gweddi dydd  
Gwener.

### Dydd Sadwrn

8:00yb: Gweddi am 8

### Dydd Sul

8:00yb: Gweddi am 8

9:30yb: Clwb Sul (ar gyfer  
plant o dan 12 oed) ar Zoom.

# Eglwys Bro Aberystwyth Bro Aberystwyth Church



Santes  
Fair



Sts. Anne  
St. Anne



Llanychaearn



Y Drindod  
Holy Trinity



Y Cil  
The Nave



St. Mihangel  
St. Michael

Dydd Sul 12<sup>fed</sup> o Fedi 2021

Actau 20: 13-38

## Gwasanaethau heddiw

9:45yb	Eglwys y Santes Fair
9:45yb	Eglwys y Santes Anne
11:00yb	Y Cil (Gwasanaeth ar-lein),
11:00yb	Eglwys y Drindod Sanctaidd
11:00yb	Eglwys Sant Mihange
11:15yb	Eglwys Llanychaearn
5:00yh	Hwyrrol Weddi (Ar-lein)

### Tim y Clerigwyr a chysylltiadau

**Deon ardal:** Parch. Mark Ansell, [mark@stmikes.net](mailto:mark@stmikes.net)

**Ficeriaid:** Parch. Cei Rees, [cei@stmikes.net](mailto:cei@stmikes.net)  
Parch. Liz Rees, [liz@stmikes.net](mailto:liz@stmikes.net)

**Curadiaid:** Parch. Becky Evans, [becky@stmikes.net](mailto:becky@stmikes.net)  
Parch. Dr Robert Wilkinson, [robert@stmikes.net](mailto:robert@stmikes.net)

### Swyddfa ardal weinidogaeth Aberystwyth

Cewch gysylltu â'r staff i gyd ar 01970 617184.

[swyddfa@stmikes.net](mailto:swyddfa@stmikes.net)

[www.stmikes.org.uk/awa-ama](http://www.stmikes.org.uk/awa-ama)

## Newyddion a Digwyddiadau

Os hoffech chi rannu sut mae Duw wedi bod yn gweithio yn eich bywyd yn ddiweddar, rhowch wybod i ni - [swyddfa@stmikes.net](mailto:swyddfa@stmikes.net)

Yn dilyn y newid i **Lefel Rhybudd 0**, gall pob cynulleidfa ganu. Mae rhaid i'r gynulleidfa wisgo mygydau, oni bai bod eithriad. Mae'r cyfyngiadau eraill yn parhau, ond byd pethau yn llacio yn araf dros y misoedd nesaf.

O'r dydd Sul hwn, cewch eistedd gyda phobl eraill nad ydynt yn aelod o'ch teulu yn yr eglwys, pe byddech chi'n dewis gwneud hynny. Os byddai'n well gennych eistedd ar eich pen eich hun neu yn eich grŵp aelwyd, bydd arwyddion "Rhowch le i mi" ar gael yng nghefn yr eglwys. Rhowch un ar eich sedd ar eich pwys. Rydym am i bawb deimlo'n gyffyrddus, a bydd hyn yn amrywio o berson i berson, felly os oes gan rywun arwydd "rhowch le i mi" wrth eu hymyl, parchwch hyn a dewch o hyd iddo sedd arall os gwelwch chi'n dda.

## Darlleniadau dyddiol a gweddïau

**Dydd Sul:** 1 Corintiaid 15:1-11. "trwy ras Duw yr wyf yr hyn ydwyf,."

**Dydd Llun:** 1 Corintiaid 15:12-28. "Y gelyn olaf...."

**Dydd Mawrth:** 1 Corintiaid 15:29-34. "Y mae cwmni drwg yn llygru cymeriad da."

**Dydd Mercher:** 1 Corintiaid 15:35-44 Atgyfodiad ydyw, nid dadebru!

**Dydd Iau:** 1 Corintiaid 15:45-58. "byddwch yn gadarn a diysgog...."

**Dydd Gwener:** 1 Corintiaid 16:1-11. Cronfa ymorth gyntaf y byd?

**Dydd Sadwrn:** 1 Corintiaid 16:12-24. Mae cariad yn treiddio trwy'r cyfan.

- Diolch i Dduw am ein bod ni'n gallu ailgychwyn gweithgareddau eglwysig ar ôl gwyliau'r haf. Gweddïwch am arweiniad a bendith Duw ar gyfer pob un ohonyn nhw.
- Diolch i Dduw am bawb sy'n eiriol dros y genedl hon. Gweddïwch y bydd mwy a mwy o Gristnogion yn ymuno â nhw.
- Codwch gerbron Duw yr holl bobl ifanc y mae eu bywyd cartref yn anodd, y rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu a'r rhai nad ydyn nhw'n cael y gofal a'r sylw sydd eu hangen arnyn nhw. Gweddïwch dros bawb sy'n ddigartref a dros y rhai y mae eu rhieni'n cael bywyd yn anodd iawn.
- Gweddïwch dros y ffermwyr yn ein gwlad a gweddïwch y bydd deddfwriaeth yn helpu yn hytrach na'u rhwystro yn eu rolau o ddarparu bwyd i ni a rheoli'r tir y mae'r rhan fwyaf ohonom yn ei gymryd yn ganiataol.
- Gweddïwch am gyfleoedd gan Dduw i dystio i realiti'r Efengyl yn eich bywyd.

### Colect

O Dduw, yn dy drugaredd hael

anfonaist yr Ysbryd Glân ar dy Eglwys, yn nhân ysol dy gariad:

caniatâ i'th bobl fod yn danbaid yng nghymdeithas yr efengyl

fel, gan fyw'n wastadol ynot ti, y ceir hwy yn gadarn mewn ffydd

ac yn ymroddgar eu gwasanaeth; trwy lesu Grist ein Harglwydd,

sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi a'r Ysbryd Glân, yn un Duw, yn awr ac am byth.

**Amen.**